

Ymwelad a Phlas Tan y Bwlch

Cerddais o'r ty y bore hwnnw yn llawn cyffro. Am ryw rheswm teimliais reit anturus. Cerddais i fewn i'r car gyda fy mag anferthol. O'r diwedd! Doeddwn i ddim yn gallu aros tan i ni gyrraedd yr ysgol ac mynais neidio o'r car. Ar ol dweud ffarwel wrth fy nhad a mam cerddais yn llawn cyffro i'r ysgol. Wrth gerdded drwy y giat gwelais fy ffrindiau efo'u bagiau a 'suit cases'. Dyma'r gloch yn canu a daeth dau ddyn i'r drws. Dynion y bws oedden nhw. Dilynom y dynion a rhoi ein bagiau iddynt. Neidiais ar y bws yn llawn bywyd. Dyma Ffion, Lleucu, Ceri a Cadi yn rhuthro y tu ol i mi. Triais gysgu ond efo'r genod yn eistedd wrth fy ymyl roedd hynny yn amhosib!

Cyrhaeddodd y Plas a gollyngom ein bagiau yn stablau y lle roedd y ceffylau yn byw o'r blaen ac wedyn cerddom i mewn i le o'r enw y theatr. Cawsom ddau o ymwelwyr o Batagonia!! Cawsom gyflwyniad ganddynt am Batagonia a'r wladfa. Y ddau ymwelwyr oedd Judith ac Ariela. Roeddent yn ddiddorol iawn a cawsom ddysgu am rhywbeth yr oeddynt yn ei yfed, dim te on matte sef dwr poeth a 'tea bag'. Cawsom ginio blasus ar ol yr ymweliad o datws pob MMMMM!!!! Yna dyma ni yn dilyn Ann Thomas i'r bws mini.

I Gastell Harlech yr oeddem yn mynd. Cyrhaeddodd ac am dipyn bach safom o flaen y castell a dyma pawb yn dechrau codi llaw ar ddyn mewn 'cockpit' craen. Yn gyntaf aethom drwy y porth ac i fewn ac i'r chwith a darganfod llefydd tan i fewn yno. Mae'n rhaid fod yna dri llawr o'r blaen oherwydd roedd yna dri lle tan yn mynd i fyny. Wedyn aethom i lle oedd y gegin o'r blaen ac wedyn i fyny ar ben waliau y castell. Mwynhaeais hyn yn ofnadwy ac yn enwedig y golygfeydd bendigedig. Ac wedyn aethom yn ol i'r plas. Roeddem yn fod i gerdded yn y goedwig ond roedd y tywydd yn ddifrifol. Yn lle cerdded aethom i'n hystafelloedd. Roeddwn i efo Jacob yn ystafell 24 ac aethom i weld Kian, Guto ac Osian yn ystafell 26. Chwaraeom cuddio am dipyn ac wedyn daeth Catherine atom a dweud fod swper mewn ychydig felly newidiom ni. Roedd Catherine yn yr ystafell rhwng 26 a 24 sef ystafell 25. Aethom i lawr am swpar a cawsom spaghetti blasus!

Cerddom yn ol i'r theatr i weld Gerain a'i aderyn ysglyfaethus ond doedd yr aderyn ddim yn gallu dod yn anffodus. Ond yr oedd o wedi dod a hen glefyddau erstmalwm. Gofynais iddo ble gafodd y clefyddaua dyma fo yn dod nol efo ateb pendant ei fod wedi eu gwneud nhw ei hun. Roeddwn i'n methu y peth. Ac wedyn gofynais lle yr oedd wedi cael yr arfwisgiau a dyma fo yn dod nol gyda ateb pendant unwaith eto sef 'fy ngwraig sydd yn eu gwneud'. Anghygoel!

Penderfynom fynd i'n hystafelloedd. Siaradodd Jacob a fi am dipyn bach am bel droed ac wedyn cawsom fferins a chreision! Aethom i gysgu ar ol yr holl fwyd am 10:30 oedd yn llawer cynharach nag oeddem wedi feddwl.

Codais y bore wedyn a newid i fy nillad cerdded yn llawn antur. Cefais frecwast blasus. Aethom ar y bws mini unwaith eto. I Drawsfnnydd y cawsom fynd y tro yma ac i'r Ysgwrn sef cartref Hedd Wyn. Wel cyrhaeddodd a chyfarfod Gerald. Ei ewythr yr oedd Hedd Wyn!! Cawsom eistedd ar gadeiriau Hedd Wyn ond ddim ar yr un ddu oherwydd doedd Hedd Wyn ddim wedi cael eistedd arni oherwydd cafodd ei ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a chafodd ei gladdu yng Ngwlad Belg.

Ffarwelio a Gerald ac i ffwrdd a ni yn ol i'r plas a chael cinio o frechdanau a cacen siocled i bwdin. Paciom ein pethau a gadael ein hystafelloedd. I lawr y grisiau a ni ac aros yn hamddenol am y bws

mini oedd yn cario ein bagiau. Taflom ein bagiau arno a camais i fewn yn gyntaf ac wedyn carlamodd pawb arall. Ffarwelïom a Phlas Tan Y Bwlch ac i lawr y lon a ni.

Dyma fy nghofnod i o fy ymweliad a Phlas Tan y Bwlch. Gobeithio wnewch chi fwynhau ei ddarllen!

Charlie Foskett, Blwyddyn 6